

Bendithio Ffynnon Elen ar yr 22^{ain} o Fai 2015

Rai blynyddoedd yn ôl fe gafodd **Fenter Siabod** arian **grant treftadaeth loteri** i gynnal cloddiad archeolegol ac ailgodi **Ffynnon Elen** (y tu ôl i westy Castell Elen). Arweinydd y prosiect, a drefnwyd ar y cyd â **Chymdeithas Ffynhonnau Cymru**, oedd Bill Jones, Cadeirydd Cymdeithas Hanes Dolwyddelan. Cafwyd cymorth ariannol hefyd ar ddechrau'r prosiect oddi wrth **Barc Cenedlaethol Eryri** a bu i'w gweithwyr helpu hefyd drwy gwmpo onnen oedd â'i gwreiddiau'n tyfu i'r ffynnon ac yn ei difrodi.

Rhoddwyd nod archeolegol ar bob carreg cyn ei gosod yn ôl yn ei lle ac wrth ailgodi adeiladwaith y ffynnon fe sicrhawyd bod y twll offrwm wedi ei gynnwys yn ei wal gefn. Yn ystod y cloddiad fe gafwyd hyd i nifer o grisialau a cherrig gwynion cwarts yn y ffynnon, ac o'i chwmpas. Ers talwm byddai pobl yn cysylltu purdeb y grisial a'r cerrig gydag iachau.

Mae sôn am Ffynnon Elen mewn llyfrau, erthyglau a dogfennau hanesyddol cannoedd o flynyddoedd oed, tra bo'r ffynnon ei hun mor adnabyddus ag erioed i bobl yr ardal.

Bu'r tîm gwirfoddolwyr yn wych, yn dod ymhob tywydd i weithio ar eu gliniau yn y mwd! Daeth gwirfoddolwyr i helpu o gymdeithasau hanesyddol eraill y gogledd, yn cynnwys cymdeithasau Llandudno, y Ro Wen, Caernarfon a Thrawsfynydd.

Cynhaliwyd seremoni ar yr 22ain o Fai pan ddaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas (Llywydd Cymdeithas Hanes Dolwyddelan) i ddadorchuddio'r byrddau gwybodaeth, a Gweinidog yr Efengyl i fendithio'r Ffynnon.

Daeth dros 40 i'r digwyddiad, yn eu plith Janet Finch-Saunders AC a Guto Bebb AS.

Hurio'r Pafiliwn

Ar werth yn y pafiliwn:

	Busnes/ Masnachol	Aelodau Elusen / Lleol
Bob Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£15
Diwrnod Llawn	£75	£30

Cardiau cyfarch
Paentiadau
Llyrau cerdded
Jane's Tasty Cakes
Diodydd poeth